**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**19 TACHWEDD 2019**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ar ddydd Mawrth, 19 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Veronica Gay, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Ray Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Councillors: Glyn Banks, Sian Braun, David Cox, Adele Davies-Cooke, Andy Dunbobbin, Carol Ellis, David Evans, George Hardcastle, Cindy Hinds, Dave Hughes, Dennis Hutchinson, Rita Johnson, Brian Lloyd, Michelle Perfect, ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant); Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol; Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Cyn dechrau'r cyfarfod, darllenodd y Cadeirydd ddatganiad i roi gwybod i Aelodau, yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol, na ddylent gyfeirio at bleidiau gwleidyddol , 'lliw' gwleidyddol Llywodraethau, neu effeithiau posibl unrhyw ganlyniad i'r etholiad mewn unrhyw drafodaethau.

## 60. CYFLWYNIADAU

Cydnabyddiaeth Gwobrau Prentis y Flwyddyn APSE

Eglurodd y Cadeirydd bod Gwobrau Prentis y Flwyddyn APSE yn agored i bob awdurdod lleol er mwyn cydnabod cyflawniadau prentisiaid mewn gwasanaethau rheng flaen a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt gan Gynghorau a sefydliadau sy'n bartneriaid. Cyflwynwyd y Gwobrau hyn, sy'n fawr eu bri, i brentisiaid sydd wedi profi eu hunain i fod yn arloesol ac sy'n hoelio sylw ar gynhyrchu rhagoriaeth yn eu maes gwasanaeth. Yn cystadlu gyda chymheiriaid ledled y Deyrnas Unedig, roedd yn gyflawniad arwyddocaol i brentis gael ei roi ar y rhestr fer derfynol. Roedd yn bleser gan y Cadeirydd hysbysu bod tri o brentisiaid Cyngor Sir y Fflint wedi cyrraedd rownd derfynol Cydnabyddiaeth Gwobrau Prentis y Flwyddyn APSE yn 2019.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i groesawu a chyflwyno Gareth Allen, Prentis Paentio ac Addurno, Rheoli Asedau Tai, a gyrhaeddodd y rhestr fer yn y categori 'Sgiliau Adeiladu'; Matthew Evans, Prentis Gweithredol Strydwedd, a gyrhaeddodd y rhestr fer yn y categori 'Strydwedd'; ac Adam Cook, Prentis Gweithredol Strydwedd, sef yr enillydd dros bawb yn y categori 'Strydwedd'.

Eglurodd y Cynghorydd Carolyn Thomas bod Matthew ac Adam wedi ymuno â'r Cyngor ym Medi 2018 fel Prentisiaid Gweithredol Strydwedd ac roeddynt yn dechrau eu hail flwyddyn o'r rhaglen. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, buont yn gweithio ochr yn ochr â staff gweithredol ar waith cynnal priffyrdd, cynnal tiroedd, a gwasanaethau glanhau a gwastraff ac ailgylchu, wrth gwblhau NVQ mewn Gwasanaethau Amgylcheddol yng Ngholeg Cambria. Enwebwyd Matthew ac Adam ar gyfer Gwobrau Prentis y Flwyddyn APSE 2019 ar ôl derbyn adborth cadarnhaol am eu hagwedd, eu brwdfrydedd a'u cynnydd gan eu mentoriaid a thiwtor y coleg. Roedd y ddau yn gystadleuwyr cryf a chawsant eu rhoi ar y rhestr fer. Yn dilyn proses gyfweld drylwyr yn erbyn cystadleuwyr eraill ledled y DU, gwobrwywyd Adam fel yr Enillydd Dros Bawb yn y Categori Strydwedd.

Siaradodd y Cynghorydd Thomas am ei chefnogaeth i'r cynllun prentisiaid a ddarparwyd gan y gwasanaeth Strydwedd dros y pum mlynedd diwethaf, a dywedodd ei fod yn darparu cyfle gwerthfawr i bobl ifanc gael dysgu ystod o sgiliau newydd a sut i weithredu peiriannau. Roedd prentisiaid yn gweithio mewn sawl maes ar draws y Gwasanaeth Strydwedd i gael blas cyffredinol ar y gwahanol feysydd ac i ganfod pa rai sydd orau ganddynt. Eglurodd y Cynghorydd Thomas bod y Gwasanaeth hefyd yn cynnig ystod o hyfforddiant ardystiedig sydd wedi'i achredu'n genedlaethol oedd yn cael ei ddarparu'n 'fewnol'. Mynegodd ei llongyfarchiadau i Matthew ac Adam a diolchodd i'w tiwtoriaid a'u mentoriaid.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Ian Dunbar Gareth am gyrraedd y rhestr fer yn y categori 'Sgiliau Adeiladu'. Eglurodd bod Gareth wedi dechrau ei brentisiaeth gyda'r Cyngor fel paentiwr ac addurnwr ym Medi 2018 a'i fod wedi profi ei hun i fod yn ased i'r Gwasanaeth. Yn ogystal â chyrraedd y rhestr fer yn y Gwobrau APSE, gwobrwywyd Gareth hefyd yn ddiweddar gyda Thystysgrif Cydnabyddiaeth yng "Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru" yn dilyn ei enwebu gan ei diwtor coleg. Yn yr adborth gan y beirniaid APSE dywedwyd: "Roedd Gareth wedi cyfleu ei hun fel rhywun brwdfrydig am ei brentisiaeth, a rhoddodd gipolwg ardderchog ar ei werth iddo ef yn bersonol ynghyd â'i uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol".

Llongyfarchodd y Cadeirydd Gareth, Matthew ac Adam am eu cyflawniadau a chyflwynodd eu Gwobrwyon APSE iddynt.

Diolchodd y Cadeirydd i Ian Peters a Denise Price, Rheolwyr Tîm – Tai ac Asedau, a Gemma Boniface, Wayne Jones a Russell Broughton, Strydwedd a Chludiant, am eu gwaith a chymorth.

**61. <u>COFNODION</u>**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2019.

<u>Cywirdeb</u>

Tudalen 5: Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom am gael diwygio’r cofnodion i gofnodi nad oedd modd iddo fod yn bresennol ar ddechrau’r cyfarfod oherwydd ymrwymiad blaenorol.

Tudalen 7: Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at ei sylwadau yn y paragraff olaf. Dywedodd ei fod wedi gofyn cwestiwn am Gynllun Glannau Dyfrdwy a sut yr oedd wedi effeithio’r Strategaeth Cludiant yn Sir y Fflint, a dywedodd nad oedd unrhyw gyfeiriad at ail hanner ei gwestiwn yn y cofnodion. Gofynnodd am gael diwygio’r cofnodion i adlewyrchu hyn.

Tudalen 12, paragraff 7, dylai’r ddolen ar gyfer sesiwn hyfforddiant y ‘Domestic Abuse Safety Unit’ (DACU) ddarllen fel (DASU).

Materion yn Codi

Tudalen 7: Dywedodd y Cynghorydd Clive Carver nad oedd eto wedi derbyn y wybodaeth a geisiwyd am nifer y landlordiaid/asiantiaid gosod eiddo nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau Rhentu Doeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiadau, fod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo a’u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

## 62. DATGAN CYSYLLTIAD

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) at Eitem 10 – Datganiad Polisi Tâl Diweddaredig 2019/20 ac eglurodd gan nad oedd y Datganiad wedi newid ac nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i’r arfer presennol, y gallai Aelodau a swyddogion aros yn y cyfarfod heb ddatgan cysylltiad, fodd bynnag, os, yn ystod y drafodaeth, bod Aelodau’n dymuno gofyn am newid yr arfer presennol, byddai’n adolygu ei gyngor.

## 63. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Wrth gyflwyno ei Chyhoeddiadau, a gylchredwyd cyn y cyfarfod, amlygodd y Cadeirydd sawl digwyddiad a chyfeiriodd at Ddawns a Chinio Elusennol Maer Bwcle, agoriad swyddogol Cartref Gofal Ychwanegol Llys Raddington, y Fflint, ac agoriad swyddogol Canolfan Ddydd Hwb Cyfle, Queensferry.

## 64. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 65. TEYRNGEDAU I'R DIWEDDAR GYNGHORYDD NIGEL STEELE-MORTIMER

Cyn gwneud teyrnged i’r diweddar Gynghorydd Steele-Mortimer, cyfeiriodd y Cadeirydd at newyddion trist marwolaeth y cyn Gynghorydd Sir, Ann Slowick. Diolchodd y Cadeirydd i’r Is Gadeirydd am fynychu angladd y Cynghorydd

Slowick i gynrychioli’r Awdurdod ar ei rhan. Dywedodd y bu’r Cynghorydd Slowick yn Gadeirydd y Cyngor Sir yn 2001-2002 a byddai’n ei chofio fel cydweithwraig weithgar a mawr ei pharch gan sawl Aelod.

Dywedodd y Cadeirydd iddi gael y fraint o fynychu angladd y Cynghorydd Nigel Steele-Mortimer a fu’n aelod o’r Cyngor am dros 30 mlynedd. Dywedodd y byddai’n cael ei edmygu a’i barchu gan bob Aelod, roedd yn wir yn ŵr bonheddig bob amser. Mynegodd y Cadeirydd ei chydymdeimlad dwys i’w wraig a’i deulu am eu colled drist.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Aelodau sefyll am un funud o ddistawrwydd mewn teyrnged i’r diweddar Gynghorydd Steele-Mortimer a’r Cynghorydd Ann Slowick.

Arweiniodd y Cynghorydd Clive Carver y teyrngedau gan yr Aelodau. Dywedodd y bu’r Cynghorydd Nigel Steele-Mortimer yn Aelod a oedd wedi rhoi ei wasanaeth ers blynyddoedd, ers 1987, ac wedi dal sawl apwyntiad uwch yn ystod ei dymor mewn swydd. Bu hefyd yn aelod o sawl sefydliad a chorff allanol amlwg a theilwng, ac unwaith eto, bu’n dal ystod o uwch swyddi oddi mewn iddynt. Cyfeiriodd y Cynghorydd Carver at rôl a chyfrifoldebau’r Cynghorydd Steele-Mortimer yn ystod ei gyfnod ar wasanaeth gweithredol, yn ei yrfa broffesiynol, ynghyd â’i ddiddordebau a’i hobïau personol. Fel ym marn y Cadeirydd, dywedodd ei fod yn ŵr bonheddig ac yn ddyn gonest; yn rhywun y gellid ymddiried ynddo ac a roddai gyngor da. Dywedodd y byddai’r Cynghorydd Steele-Mortimer yn cael ei golli’n fawr.

Talwyd teyrngedau pellach i’r Cynghorydd Steele-Mortimer gan y Cynghorwyr Ian Roberts, Patrick Heesom, Arnold Woolley, Neville Phillips, Tony Sharps, Mike Peers a Derek Butler. Siaradwyd am eu cysylltiadau hir gydag o, a dywedwyd eto ei fod wedi gwasanaethu’r Cyngor yn dda mewn uwch swyddi ac y bu’n ffynhonnell anfesuradwy o arweiniad a gwybodaeth i eraill. Unwaith eto, nodwyd fod parch mawr i’r Cynghorydd Steele-Mortimer ymhlith Aelodau a Swyddogion, ac fe’i hystyriwyd yn gyfaill anrhydeddus a dibynadwy a fyddai’n rhoi help a chyngor cadarn pan fo’i angen.

Talwyd teyrnged hefyd i’r Cynghorydd Ann Slowick, a fu’n cynrychioli Ward Gronant, gan y Cynghorwyr Ian Roberts, Tony Sharps a Derek Butler. Dywedwyd ganddynt fod y Cynghorydd Slowick yn weithgar a’i bod wedi gwasanaethu’r Cyngor mewn modd rhagorol fel cyn Gadeirydd y Cyngor, ac y bu’n gynrychiolydd ardderchog ar ran ei chymuned. Roedd hi’n uchel ei pharch ymhlith yr holl Aelodau am ei rhinweddau personol.

Diolchodd yr Aelodau i’r Cynghorydd Steele-Mortimer a’r Cynghorydd Slowick am eu hymroddiad a’u gwasanaeth i Sir y Fflint, gan ddweud eu bod yn esiamplau o ran sut y dylai Aelod etholedig gyflawni busnes y Cyngor a’r gymuned.

**66. <u>CROESO I'R CYNGHORYDD KEVIN RUSH</u>**

Estynnodd y Cadeirydd groeso ffurfiol i’r Cynghorydd Kevin Rush, yr aelod newydd a etholwyd ar gyfer Gorllewin Bagillt.

Diolchodd y Cynghorydd Rush i'r Cadeirydd am ei chroeso cynnes. Diolchodd hefyd i Aelodau, swyddogion a staff am eu croeso a'u cymorth, ac yn benodol y Swyddog Monitro Canlyniadau a'r Tîm Etholiad am eu gwaith yng nghyswllt Is-etholiad Gorllewin Bagillt. Dywedodd ei fod yn fraint cael ei ethol i gynrychioli cymuned Gorllewin Bagillt ac y byddai'n ymdrechu i wasanaethu'r preswylwyr hyd orau ei allu.

## 67. ADOLYGIAD ETHOLIADOL SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad mewn ymateb i Adolygiad o Drefniadau Etholiadol Sir y Fflint - Cynigion Drafft gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC). Byddai'r cyfnod ymgynghori ar gyfer ymatebion gan y Cyngor a phartïon eraill sydd â diddordeb yn y cynigion yn dod i ben er 27 Tachwedd 2019.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am eu gwaith a'u cydweithrediad o ran cyflawni consensws lleol yn y mwyafrif o achosion ac am gyrraedd y dyddiad cau ar gyfer Cam 2 o broses yr adolygiad. Cyfeiriodd at yr ymgynghoriad cychwynnol rhwng Tachwedd 2018 ac Ionawr 2019 pryd y gwnaeth Aelodau gynigion i CFfDLC ar gyfer newidiadau i wella cynrychiolaeth leol. Fel atodiad i'r adroddiad, cafwyd ymateb drafft y Cyngor i Gam 2 o gynigion drafft CFfDLC ar gyfer Sir y Fflint. Eglurodd y Prif Weithredwr mai'r ymagwedd tuag at yr ymateb cychwynnol fu rhoi statws coch/oren/gwyrdd (RAG) sydd wedi'i gario ymlaen i'r ail ymateb (gyda rhai Gwyrdd yn gynigion a gefnogwyd gan CFfDLC neu'n gynigion amgen oedd yn destun consensws ymhlith Aelodau lleol; roedd rhai Oren yn gynigion lleol nad oeddynt yn cael cefnogaeth o ran consensws llawn; ac roedd Coch yn nodi na fu cytundeb lleol yn bosibl).

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad. Eglurodd bod cynigion drafft CFfDLC ar gyfer Sir y Fflint, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2019, wedi newid trefn wardiau etholiadol i gyflawni "gwelliant sylweddol" yn lefel y cydraddoldeb etholiadol ar draws Sir y Fflint. Byddai hyn yn golygu Cyngor o 65 Aelod gyda chymhareb gyfartalog arfaethedig yn y Sir o 1,836 o etholwyr yr Aelod, ynghyd â gostyngiad i 30 o wardiau etholiadol yn lle'r 57 presennol. Dywedodd unwaith eto bod manylion y cynigion drafft a gyflwynir i CFfDLC, yn seiliedig ar ymgynghori helaeth gydag Aelodau, wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod gan Aelodau ddealltwriaeth unigryw o'r ardaloedd a gynrychiolwyd ganddynt ynghyd â gwybodaeth am anghenion lleol a chysylltiadau yn y gymuned a oedd yn darparu cydlyniant cymunedol a chynrychiolaeth effeithiol. Dywedodd efallai na fyddai rhai o gynigion y Cyngor yn cyflawni gofynion CFfDLC o ran cydraddoldeb etholaethol ond eu bod yn cyflwyno opsiynau hyfyw a fyddai'n cael cefnogaeth leol. Adroddodd am y prif ystyriaethau mewn perthynas â'r cynigion a oedd wedi ffurfio ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad. Eglurodd bod cyfle'n dal i fod cyn y dyddiad cau ar 27 Tachwedd 2019 i Aelodau gyflwyno rhagor o sylwadau personol neu i annog sylwadau gan grwpiau. Yn dilyn cwblhau proses Cam 2, byddai'r Comisiwn yn paratoi Adroddiad ar y Cynigion Terfynol (Cam 3) a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Rhybuddiodd y byddai gwneud newidiadau yng Ngham 3 yn anodd.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod ymateb y Cyngor yn amlygu'r meysydd, fel y nodwyd yn yr adroddiad, lle teimlwyd fod y Comisiwn wedi gwyro gormod oddi wrth ei reolau ei hun. Dywedodd unwaith eto bod angen darparu'r ymateb gorau bosibl i'r cynigion yng Ngham 2, gan na fyddai newidiadau efallai'n cael eu derbyn yn nes ymlaen.

Wrth gynnig yr adroddiad diolchodd y Cynghorydd Ian Roberts i'r Gwasanaethau Democrataidd a'r Tîm Etholiad am eu gwaith a'u cymorth i helpu Aelodau i ffurfio ymateb i'r cynigion. Diolchodd hefyd i'r Arweinwyr Grwpiau am eu gwaith a soniodd am wrthwynebiad unedig y Cyngor i'r cynnig i gael wardiau tri aelod. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai ymateb y Cyngor yn pwysleisio ei wrthwynebiad i greu wardiau a chanddynt dri aelod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at yr enghraifft yn yr adroddiad y byddai'r cynnig ar gyfer cyfuno tair ward bresennol Treffynnon yn ward tri aelod yn golygu y byddai disgwyliad i bob Aelod unigol gynrychioli nid cymhareb CFfDLC o 1 aelod:1,836 o bobl ond 1 aelod:4,634 o bobl, a dywedodd y byddai hyn yn gynnydd o 1 aelod:6,900 o bobl ar gyfer aelod ward Bwcle. Awgrymodd y dylid cynnwys ail enghraifft yn yr ymateb i amlygu'r amrywiaeth o ran niferoedd.

Dywedodd y Cynghorydd Mike Peers bod cynigion drafft CFfDLC a dderbyniwyd ym mis Awst wedi achosi pryder mewn rhai cymunedau yn Sir y Fflint yng nghyswllt cyflwyno wardiau tri aelod, ynghyd ag achosion lle byddai wardiau'n cael eu huno. Cefnogodd y barnau a fynegwyd gan y Cynghorydd Ian Roberts ac Arweinwyr Grwpiau nad oedd angen wardiau tri aelod yn Sir y Fflint. Diolchodd i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) am eu gwaith ar ymateb y Cyngor i CFfDLC a dywedodd ei fod yn croesawu'r cynnig i gyflwyno sylwadau ychwanegol cyn y dyddiad cau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at ymateb drafft y Cyngor oedd wedi'i atodi i'r adroddiad. Dywedodd bod yr ail golofn ar y ward arfaethedig, nifer yr Aelodau ac ati wedi dod yn uniongyrchol gan y Comisiwn yng nghynigion mis Awst. Dywedodd bod y sylwadau gwyrdd, mewn rhai achosion, yn nodi nifer yr etholwyr i'w symud o un ward i un arall, ond teimlodd bod angen gwneud nifer y wardiau mewn tref yn fwy eglur, er enghraifft, lle lleihawyd 4 ward i 2, yn y sylwadau dylid nodi bod angen cadw'r 4 ward. Dywedodd hefyd bod angen gwneud nifer yr aelodau arfaethedig ym mhob ward yn gliriach yn y cynigion diweddaraf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Clive Carver at wardiau Ewloe, Penarlâg, Aston a Mancot a dywedodd mai awgrym a gytunwyd gan bob un o gynghorwyr presennol y wardiau oedd bod Penarlâg yn cael ei gynnwys yn yr ardaloedd eraill, byddai gan yr ardaloedd eraill elfen 'dwyrain/gorllewin' neu 'gogledd/de', er enghraifft Dwyrain Penarlâg, neu Gorllewin Penarlâg, a dywedodd nad oedd yn gweld cyfeiriad at hyn yn yr atodiad. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys y sylw yn ymateb y Cyngor i CFfDLC. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai e-bost yn cael ei hanfon at bawb dan sylw - i'r perwyl hwnnw - ac y byddai cyfeiriad yn cael ei wneud yn yr ymateb at y consensws o ran y cynigion.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Neville Phillips at etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhelir y flwyddyn nesaf, a dywedodd ei fod yn deall efallai y bydd pleidlais yn cael ei gyflwyno ar gyfer rhai 16/17 oed a fyddai'n

effeithio'r cyfrifiadau o ran cymarebau aelodau:etholwyr yn y wardiau presennol yn Sir y Fflint. Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod y pwynt a wnaed gan y Cynghorydd Phillips ac eglurodd mai newydd ei gyhoeddi oedd y Bil Llywodraeth Leol, a phe byddai'n cael ei ddeddfu, byddai'n weithredol y flwyddyn nesaf. Eglurodd bod y CFfDLC yn ei ddiystyru yn eu briff cyfreithiol presennol, a'i gyngor fyddai na ellid dibynnu arno yn ymateb y Cyngor ar hyn o bryd.

Roedd y Cynghorydd Chris Bithell yn cymeradwyo'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'i dîm am eu cymorth o ran cefnogi'r Aelodau wrth ymdrin â materion cynhwysfawr a sensitif. Dywedodd ei fod yn gwbl gefnogol i'r barnau a fynegwyd ar y gwrthwynebiad i gyflwyno wardiau tri aelod mewn rhai ardaloedd. Siaradodd am y cysylltiadau cryf rhwng Aelodau a'u cymunedau lleol a oedd yn hanfodol bwysig.

Wrth grynhoi, eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r Cyngor, mewn llythyr ysgrifenedig gyda thystiolaeth, yn herio CLIDCL i gydbwyso cysylltiadau cymunedol a chymhareb artiffisial.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Ian Roberts a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Bernie Attridge.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Cyngor yn cytuno i gyflwyno'r cynigion a nodwyd yn Atodiad 1 gydag amrywiad.

## 68. <u>DATGANIAD DIWYGIEDIG AR BOLISÏAU TÂL AR GYFER 2019/20</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a darparodd wybodaeth gefndirol. Eglurodd bod y Datganiad Polisi Tâl a gyflwynwyd o fewn yr adroddiad yn fersiwn diwygiedig o'r seithfed Datganiad blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn Ionawr 2019. Bu rhaid diweddaru'r polisi tâl i adlewyrchu'r newidiadau mewn tâl ar gyfer cyfran fawr o'r gweithlu o ganlyniad i ymarfer modelu tâl i ddarparu ar gyfer Blwyddyn Dau (2019) o gytundeb tâl NJC.

Cyflwynwyd y prif ystyriaethau gan yr Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Eglurodd, ar ôl gweithredu'r amryw ddyfarniadau tâl cenedlaethol, y gyfradd dâl isaf a werthuswyd gan yr Awdurdod oedd £17,364, ac roedd y cyflog canolig wedi codi i £19,554, a dywedodd fod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cau. Eglurodd mai dim ond pum rhan o'r polisi tâl oedd wedi'u diwygio. Roedd pedwar ohonynt yn fân newidiadau oedd yn adlewyrchu newidiadau o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog a gwelliant yn y sefyllfa o ran perthynoledd tâl. Aeth ymlaen i ddweud bod y prif newid i'w weld yn Adran 11 – Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC) ynghyd â chyflwyno'r model tâl newydd.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr at gwmpas y gwaith. Dywedodd mai'r dyddiad y byddai'r model tâl newydd yn effeithiol oedd 1 Ebrill 2019 ac fe'i gweithredwyd yng Ngorffennaf 2019 (wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2019). Ymgymerwyd ag Asesiad annibynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb oedd, yn fyr, wedi canfod bod y diwygiad i'r strwythur tâl a graddio yn ddatblygiad cadarnhaol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bernie Attridge ar y cyflog byw cenedlaethol, cyfeiriodd yr Uwch Reolwr at gydymffurfio â'r cytundeb cenedlaethol, ac eglurodd y bu'r Cyngor yn gyflogwr cyflog byw ers Ebrill 2019.

Diolchodd y Cynghorydd Richard Jones i'r Uwch Reolwr a'i thîm am eu gwaith, gan gydnabod yr ymrwymiad i gadw o fewn y gyllideb, rheoli'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ynghyd â'r gwaith a wnaed ar y cyd â'r Undebau Llafur.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl 2019/20 fel yr oedd wedi'i atodi i'r adroddiad.

## 69. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 70. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 71. RHYBUDD O GYNNIG

Ni dderbyniwyd unrhyw rai oedd yn gymwys ac y gellid eu hystyried yn ystod y cyfnod cyn etholiad.

## 72. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg neu'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.24 pm)

…………………………………………

**Y Cadeirydd**